# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar Ebrill y 1af, 2025

## yn Neuadd Bentref Rhydlewis.

**Yn bresennol** Cyng. Sian Williams ( Cadeirydd )

Cyng. Sharon Thomas

Cyng. Emyr Jones

Cyng. Mark Davies

Cyng. Carol Davies

Cyng. Teifi Evans

Cyng. Ceri Jones

Cyng. Osian Davies (dros Teams)

Cyng. Maldwyn Lewis

**Clerc** Sharon Thomas yn absennoldeb Clerc

**1 . Ymddiheuriadau**

Cyng. Llyr Evans, Cyng. Rob Jones

**2. Datgan Diddordeb**

DIM

**3. Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**3.1** – Derbyniodd pawb gopi o gofnodion Mawrth a chynigodd y Cyng. Emyr Jones eu bod yn gywir, ac eiliwyd gan y Cyng. Teifi Evans

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**4.1** - Llwybr Cerdded – llwybr Clos Glas wedi ei wneud ac wedi derbyn anfoneb o £361.20 am y gwaith.

**4.2** - Sticeri ar y biniau halen – y Cyng. Mark Davies wei cynnig gwneud y sticeri am ddim. Angen hefyd nodi safle'r binniau ar 'Google maps' er mwyn cael cofnod o'u lleoliadau.

**4.3** – Arwydd T Llew Jones – y Cyng. Maldwyn Lewis wedi siarad gyda Rhiannon o Boomerang ac maent yn disgwyl ffeiliau gwybodaeth wrth y Cyngor. Y Cyng. Sian Williams yn nodi fod y lluniau wedi mynd draw atynt ac roedd am ffonio Rhiannon i gadarnhau fod y wybodaeth i gyd ganddynt i fwrw ymlaen gyda'r gwaith.

**4.4** – Cyfarfod 'Toolkit' – yn anffodus, wedi gorfod gohirio cyfarfod mis Mawrth gan fod sawl un wedi methu mynychu. Cyfarfod mis Mehefin i ddechrau am 6yh er mwyn clustnodi amser i'w drafod.

**4.5** – Clerc newydd – un person wedi dangos diddordeb (Helen Horscroft) ac wedi gofyn am fwy o fanylion am y swydd. Yn bwysig ein bod yn nodi'r elfen o hyfforddiant. Y Cyng. Mark Davies i wirio'r

cytundeb gwaith a'r Cyng. Sian Williams i drefnu cwrdd gyda Helen i drafod ymhellach. Bydd angen gwneud yn siwr ein bod yn derbyn y P60 i'n Clerc blaenorol-mae wedi derbyn y P45 yn barod. Rhoi ar agenda y mis nesaf.

**5. Cyrsiau**

**5.1** - Mae gweminarau ar gael am ddim – rhestr ar gael.

**6. Materion y Cynghorydd Sir -**

**6.1** – Mae costau byw yn broblem ar hyn o bryd gyda nifer o drigolion ein hardal ni sy'n peri gofid. Mae yna ffynonhellau sydd yn medru cynnig help/cyngor fel Age Cymru, Citizens Advice ayyb. Mae yna 'benefit checker' ac mae yna gefnogaeth ariannol i'w gael er mwyn cael mynediad iddo.

**6.2** – Digwyddiadau cost isel Pasg o amgylch y Sir i deuluoedd. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â 01545570881. Y Cyng. Sian Williams eisioes wedi rhannu'r poster ar dudalen fb y Cyngor.

**6.3** – Ymgyrch etholiad y Senedd – mae rhai pobl wedi dechrau ar y gwaith ymgyrchu a rhoi eu henwau ymlaen.

**6.4** – Mae yna lawer o sôn wedi bod yn y wasg am gynnydd cyflogau o fewn Cyngor Ceredigion. Eisiau nodi fod hyn allan o ddwylo'r Cynghowryr Sir. Hefyd am nodi fod gan pob unigolyn yr hawl i wrthod y cynnydd cyflog.

**7. Pwyllgor Apel Eisteddfod Garreg Las 2026**

**7.1** – Cyfarfod cronfa leol ar yr 8fed o Ebrill yn Nhafarn Ffostrasol am 6.30yh. Owenna Davies am sefydlu gweithgor o'r ardal i godi arian. Llythr wedi dod yn gofyn am gyfraniad tuag at yr achos. Wedi trafod hyn ac angen i'r ffurflen priodol cael ei llenwi ac yna ail trafod y cais ym mis Ionawr 2026.

**8. Toolkit**

**8.1** – Cyfarfod mis Mehefin i ddechrau am 6yh er mwyn clustnodi amser i drafod.

**9. Adroddiad Blynyddol**

**9.1** – Y Cadeirydd wedi dechrau'r broses ac yn mynd i rannu'r adroddiad yn ein cyfarfod nesaf.

**10. Gohebiaeth**

**10.1** – Un Llais Cymru – wedi derbyn anfoneb am aelodaeth am y flwyddyn 2025/2026 o £271. Pawb yn gytun a'i dderbyn.

**10.2** – E-bost wrth Kerry Killick yn nodi ei ymateb i apel cynllunio Llwyn Iwan, rhif y cais CAS-03875-M5P7F4

**10.3** – Arweininad digidol –wedi derbyn linc i adroddiad llywodraethu ac atebolrwydd y Cyngor.

**10.4** – Gwybodaeth ar benderfyniad terfynol y Senedd.

**10.5** – Dyddiadau hyfforddiant.

**10.6** – Digwyddiadau Un Llais Cymru – gwybodaeth am cyfarfod codi cymorth cynllunio Cymru.

**10.7** – Anghenion gofal a chymorth Hafan y Waun.

**10.8** – Llythr o ddiolch gan glwb bowlio Rhydlewis am gyfraniad wrth y Cyngor Cymuned.

**10.9** – Elusen profedigaeth plant – Sandy Bear. Wedi ei rannu ar tudadlen fb y Cyngor.

**10.10** – Cyfarfod Pwyllgor Ardal yng Nghei Newydd ar 02.04.25

**10.11** – E-bost wrth Eurfyl Lewis am gefnogaeth ariannol tuag at Eisteddfod y Garreg Las 2026. (Gweler 7.1)

**11. Cynllunio**

**11.1** – A250181 Ardwyn, Croeslan – wedi trafod y cais. Cytunwyd fod yna'r angen i balmant i gerddwyr oherwydd y cynydd mewn nifer o bobl/tai.

A250180 Penllwyn, Brongest – wedi trafod y cais. Cytunwyd fod yna'r angen i'r newidiadau gan ystyried fod ansawdd y tŷ fel y mae e ddim yn saff nac yn addas i unrhyw un byw ynddo.

**12. Cyllid**

**12.1** – Cytunwyd i dalu'r anfonebau ac arwyddwyd y sieciau gan y Cyng. Ceri Jones a'r Cyng Mark Davies.

HMRC - £67.60

Cyflog y Clerc - £270.54

Treuliau postio ayb - £27.12

**13. – Materion Ardal**

**13.1** – **Rhydlewis** – Tyllau yn y rheol ar y sgwar.

Defaid ar goll – eisiau nodi sut oedd y gymuned gyfan wedi dod at eu gilydd a helpu wedi'r digwyddiad diweddar o ddefaid yn cael eu dwyn yn lleol. Roedd yr holl help wedi arwain at ddod o hyd i'r troseddwr a'r perchennog yn derbyn y rhan fywaf o'r defaid nôl yn ddiogel.

Llifogydd – ar ôl bwrw'n drwm, llifogydd ar y lôn lawr at garej Rhydlewis.

**13.2 - Ffostrasol** – Mae'r cysylltiad cyntaf wedi'i wneud gyda BT openreach tua pythefnos yn ôl.

Os oeddech wedi arwyddo fyny i'r cynllun, yna mae angen defnyddio'r talebau.

Rheol ar gau am wythnos oherwydd gwaith gyda cwnmi dwr (i fyny am Plwmp).

**13.3 – Llwyddiant Eisteddfod yr Urdd** – Llongyfarchiadau i ddisgyblion cynradd ac uwchradd yr ardal ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfodau Cylch a Rhanbarthol yn ddiweddar. Mae cynrychiolaeth helaeth o'r ardal yn mynd ymlaen i gystadlu ym Margam ym mis Mehefin a phob lwc iddynt i gyd.

Cyngerdd pigion Eisteddfod yn Ysgol Bro Teifi ar y 10fed o Ebrill 2025.

**14. Cyfarfod Nesaf**

**14.1** – Bydd ein cyfarfod nesaf a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn Neuadd Ffostrasol Mai y 13eg am 7:30yh.

Cytunwyd fod y cofnodion yma'n gywir.

SB Williams ---------------- 13/5/25

Arwyddwyd ( y Cadeirydd )

Dyddiad